Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu Police
DYFED-POWYS

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# "Cynllun i wreiddio'r Gymraeg o fewn plismona o ddydd i ddydd"

2018-2021

DWY IAITH DAU DDEWIS

TWO LANGUAGES YOUR CHOICE

**Rhagair gan y Prif Gwnstabl Mark Collins a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn falch o fod yn Heddlu dwyieithog sy'n adlewyrchiad teg o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r Heddlu wedi gwneud cynnydd da yn ystod y 12 mis diwethaf wrth gadw'n gyfredol â'r newidiadau deddfwriaethol gan sicrhau darpariaeth Gymraeg lawn sy'n gosod yr iaith ar sylfaen gyfartal. Yn fewnol mae ymdrech fawr yn cael ei gwneud i sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a gellir clywed yr iaith gan staff mewn gorsafoedd ac ar batrôl ym mhob cornel o'r ardal.

Y llynedd ymgymerodd dros gan aelod o staff â gwersi Cymraeg yn amrywio o'r Prif Gwnstabl i staff rheng flaen. O fewn rhai ardaloedd mae'r heddlu wedi ariannu gwersi allanol pan nad yw teithio i'r Pencadlys yn Llangynnwr yn ymarferol.

Mae ein hardal Heddlu fawr yn golygu bod tapestri cyfoethog o amrywiaeth *o fewn* y Gymraeg. Rydym yn wynebu'r her ddiddorol oherwydd gwahanol acenion yr iaith ar draws y pedair sir. Mae lleoli swyddogion cyfrwng Cymraeg yn agos at adref yn helpu i gynnal cysylltiadau cryf a meithrin ymddiriedaeth.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n wynebu'r cyhoedd yn gallu cwrdd a chyfarch yn Gymraeg o leiaf cyn cynnig gwasanaethau aelod o staff cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn falch bod yr Heddlu wedi rhagori ar y gofynion deddfwriaethol ac yn cynnig cyrsiau i staff yn gyfan gwbl trwy gyfwng y Gymraeg. Mae Heddlu Dyfed-Powys eisoes yn archwilio'r posibiliad o gydweithio gyda heddluoedd eraill a sefydliadau academaidd i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – yn enwedig ar gyfer hyfforddiant cychwynnol swyddogion a staff.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Thîm y Prif Swyddog yn croesawu'r llwyddiannau diweddar ac yn edrych ymlaen at wreiddio'r Gymraeg ym mhopeth yr ydym yn ei wneud i gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf.

## Cynnwys


1. Ynglŷn â Heddlu Dyfed-Powys a Chefndir Deddfwriaethol....………………. 4
2. Nod y Strategaeth Hon....……………………………………………………… 7
3. Canlyniadau ein Hadolygiad Thematig…………………………...………… 8
4. Ein Cynllun Gweithredu…………………………………………………………. 15
5. Monitro Cynnydd..... ……………………………………………………………16
6. Pwy ddylwn i gysylltu â hwy am unrhyw wybodaeth bellach………….… 18

## 1. Ynglŷn â Heddlu Dyfed-Powys a Chefndir Deddfwriaethol

Diogela Heddlu Dyfed-Powys bobl sy’n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Siroedd Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae ganddi **boblogaeth o dros 515,000**, sy’n cael hwb sylweddol gyda thwristiaid bob blwyddyn, ac mae’n gorchuddio ardal o dros hanner Cymru.

Ffurfiwyd yr Heddlu ym 1968 wrth uno’r Pedair Cwnstabliaeth Sirol. Yn ddaearyddol dyma’r Heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr; mae ganddi dros 350 milltir o arfordir, llawer o gymunedau gwledig anghysbell ynghyd â nifer o ganolfannau poblogaeth gweddol fach sy’n cynnwys Aberystwyth, Aberteifi, Hwlffordd, Caerfyrddin ac Aberhonddu. Mae’r ardal yn ymestyn o Dyddewi yn y Gorllewin draw i Grucywel yn y Dwyrain, i fyny i’r Trallwng a Machynlleth yn y gogledd.

Ein gweledigaeth yw ‘Diogelu ein Cymunedau Gyda’n Gilydd’ a’n hethos cyffredinol yw teilwra’r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu, gyda’n sefydliadau partner, i anghenion lleol ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys ein cymunedau cyfrwng Cymraeg, sy’n niferus ar draws ein hardal.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan tua **160,000 o bobl ddealltwriaeth dda neu rugl** o’r Gymraeg - mae hynny’n **tua 35% o boblogaeth ein hardal**. Mae’r ganran hon yn codi yn siroedd Ceredigion a Sir Gâr sydd â’r boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae’r Heddlu yn cyflogi **2,151 o bobl** ledled y 4 Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys **1,170 Swyddog Heddlu, 833 aelod o staff yr heddlu** (gan gynnwys PCSOs), **98 o Gwnstabliaid Gwirfoddol** a **50 o Wirfoddolwyr**. Ymgymerir â derbyniadau recriwtio rheolaidd trwy gydol y flwyddyn yn unol â chynllunio’r gweithlu a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Yn ôl ein data diweddaraf, mae dros **75%** o'n gweithwyr wedi datgan bod ganddynt beth gwybodaeth o'r Gymraeg – y mae **32%** ohonynt yn gallu cynnal sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae dadansoddiad pellach o allu Cymraeg ein staff a swyddogion i'w weld yn *Adran 2: Canlyniadau ein Hadolygiad Thematig*.

Mae Heddlu Dyfed-Powys bob amser wedi ystyried pwysigrwydd y Gymraeg oherwydd y sir yr ydym yn gwasanaethu o'i mewn a dewisiadau a galluoedd iaith ein cymunedau. Serch hynny, mae'r ystyriaeth hon wedi'i chwyddo yn ddiweddar o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd ar Heddlu Dyfed-Powys (Yr Heddlu) a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (OPCC) ym mis Medi 2016.

Mae Safonau'r Gymraeg, ar ôl cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'u gweithredu gan yr Heddlu ac OPCC o'r 30 Mawrth 2017 ymlaen. Yn gryno, maen nhw'n datgan y lefel gwasanaeth gofynnol y gall ein staff a chymunedau disgwyl ei derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n bwysig, ynghyd â sicrhau cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg, bod yr Heddlu ac OPCC yn ymroi i edrych am feysydd gwelliant o ran Cyflenwi Gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a dyna pam y mae'r strategaeth hon wedi'i chomisiynu.

**Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throsedd Heddlu Dyfed-Powys**

Amlinella'r Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, flaenoriaethau heddlu a throsedd ar gyfer y cyfnod 2017 – 2021.

Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd yw:

- **Blaenoriaeth Un:** Cadw ein cymunedau yn ddiogel
- **Blaenoriaeth dau:** Diogelu'r bregus

- **Blaenoriaeth tri:** Amddiffyn rhag niwed difrifol
- **Blaenoriaeth pedwar**: Cysylltu â chymunedau

I bob pwrpas, bydd y ffordd y byddwn yn defnyddio'r Gymraeg yn y pendraw yn effeithio ar bob un o'r uchod. Oherwydd pan fyddwn ni'n gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau uchod mae gofyn i ni wneud hynny trwy ddewis iaith yr unigolion dan sylw. Mae'n cyfrannu'n benodol at Flaenoriaeth Pedwar gan ein bod ni eisiau sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'n cymunedau, ac er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni gyfathrebu trwy eu dewis iaith.

Gweledigaeth gyffredinol yr heddlu sy'n sail i'r Cynllun yw diogelu ein cymunedau gyda'n gilydd. Cydweithio i gynnig gwasanaeth o safon uchel sy'n weladwy ac yn hygyrch, gan sicrhau bod ein cymunedau yn parhau'n ddiogel. Byddwn yno pan fydd y cyhoedd ein hangen ni a byddwn yn gweithredu â thegwch a pharch ym mhob peth yr ydym yn ei wneud – mae argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

## 2. Nod y Strategaeth hon

Nod y strategaeth yw datblygu gweithlu sy'n gynrychioladol o'n cymunedau trwy:

- ❖ Sicrhau bod ein cymunedau yn derbyn gwasanaeth Cymraeg pan ofynnir amdano.
- ❖ Denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â gweithlu'r Heddlu a'r OPCC; bydd hyn yn galluogi argaeledd cyfartal y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hefyd yn gwella cynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg o fewn yr Heddlu o'i gymharu â'r gynrychiolaeth o fewn ein cymunedau;
- ❖ Cynnig cyfleoedd digonol i'n staff a swyddogion ddysgu Cymraeg yn y

gweithle, ynghyd â defnyddio'r Gymraeg yn ystod pob agwedd ar eu cyflogaeth, gan gynnwys hyrwyddo; a

- ❖ Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol o ran holl bolisïau a gweithdrefnau'r Heddlu ac OPCC, yn hytrach na'n ôl-ystyriaeth.

## 3. Canlyniadau ein Hadolygiad Thematig

Cyn y gallwn ddeall yn llawn y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio'n llawn ym musnes bob dydd yr Heddlu a'r OPCC, cynhaliwyd adolygiad thematig er mwyn cael gwaelodlin o'r sefyllfa gyfredol.

Ystyriodd yr Adolygiad Thematig:

- Data Heddlu Cenedlaethol;
- Data Heddlu Dyfed-Powys;
- Cyfrifiad 2011;
- Cynrychiolaeth o gymunedau o fewn ardal ddaearyddol Heddlu Dyfed-Powys, gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011;
- Casglu data o Heddluoedd eraill Cymru;
- Canfyddiadau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, a gasglwyd trwy ymweld â gorsafoedd ac adrannau;
- Barnau ein cyhoedd, wedi'u casglu trwy siarad ag aelodau'r cyhoedd mewn gwahanol ardaloedd; ac
- Ymchwil ehangach

Fel sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn cynnig gwasanaeth yng Nghymru, ac yn amodol ar Fesur y Gymraeg 2011, mae achos busnes clir dros sicrhau bod yr Heddlu a'r OPCC yn gwreiddio'r Gymraeg o fewn eu busnes.

Crynhoir canfyddiadau allweddol yr adolygiad thematig isod.

**Gallu Cymraeg ein Cymunedau v Ein Gweithlu**

Fel y nodir yn *Adran 1: Ynglŷn â Heddlu Dyfed-Powys*, datganodd 35% o boblogaeth ein Heddlu allu i siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael i ni, mae 29.65 % o'n Swyddogion Heddlu yn gallu cynnal sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg (Lefel 3 ac uwch), a 38% o'n staff.

Os byddwn yn canolbwyntio ar Swyddogion Heddlu yn benodol o fewn pob adran:

- Yn unol â Chyfrifiad 2011, datganodd 44% o breswylwyr yn **Sir Gâr** eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 39% o Swyddogion Heddlu sydd wedi'u lleoli o fewn Sir Gâr ar lefel 3 neu'n uwch;
- Yn unol â Chyfrifiad 2011, datganodd 48% o breswylwyr yng **Ngheredigion** eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 55% o Swyddogion Heddlu o fewn Ceredigion ar lefel 3 neu'n uwch;
- Yn unol â Chyfrifiad 2011, datganodd 19% o breswylwyr yn **Sir Benfro** eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac roedd 13% o Swyddogion Heddlu wedi'u lleoli o fewn Sir Benfro ar lefel 3 neu'n uwch;
- Yn unol â Chyfrifiad 2011, datganodd 19% o breswylwyr ym **Mhowys** eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 16% o Swyddogion Heddlu sydd wedi'u lleoli o fewn Powys ar lefel 3 neu'n uwch.

Er bod data'r cyfrifiad yn rhyw saith mlwydd oed a rhaid ei ystyried yn y cyd-destun

hwnnw, mae ychydig o gam-gymharu yng nghynrychiolaeth Gymraeg ein swyddogion ym Mhowys, Sir Benfro a Sir Gâr.

Er bod ein haelodau staff cyfrwng Cymraeg yn gynrychioladol iawn o'i gymharu â chynrychiolwyr yn ein cymunedau, mae lle i wella o hyd, ac mae angen clir i gynyddu nifer y Swyddogion Heddlu cyfrwng Cymraeg a gyflogir gan yr Heddlu.

Adnabu cymhariaeth gyda Heddlu De Cymru a Gwent ein bod ni'n dipyn yn fwy cynrychioladol o'n cymunedau na'u gweithluoedd hwy, serch hynny mae gwersi posibl i'w dysgu gan Heddlu Gogledd Cymru y mae eu gweithlu yn cynnwys 3 aelod yn unig o staff nad ydynt ag unrhyw allu iaith Gymraeg.

Sylwch fod yr Heddlu wedi penderfynu'n flaenorol yn erbyn ei gwneud hi'n orfodol i'r holl staff a swyddogion ddysgu Cymraeg i lefelau penodol.

**Gwersi Cymraeg**

Mae'r Heddlu wedi sefydlu Polisi'r Gymraeg sy'n datgan ymrwymiad yr Heddlu wrth hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg – amlinella'r polisi hefyd gefnogaeth sydd ar gael i staff a swyddogion i ymgymryd â chyrsiau Cymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, mae 101 o swyddogion/aelodau staff wedi mynychu'r cyrsiau o fewn yr Heddlu ynghyd â nifer anhysbys wedi cofrestru i ymgymryd â chwrs dysgu ar-lein i ddechreuwyr a oedd ar gael i'r holl staff a swyddogion.

Yn ychwanegol, mae'r Heddlu wedi galluogi i'r staff a swyddogion fynychu cyrsiau Cymraeg yn eu cymunedau os nad yw'r amgylchiadau yn caniatáu iddynt fynychu cyrsiau sy'n cael eu cynnal gan yr Heddlu yn ei Phencadlys am amryw resymau h.y. materion trafnidiaeth/patrymau shifft. Hyd yma eleni, mae 8 aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle hwn ac mae niferoedd y ceisiadau yn cynyddu'n ddyddiol.

Hefyd, mae'r Prif Gwnstabl Mr Mark Collins a'r Dirprwy Brif Gwnstabl Mr Darren Davies wedi bod yn mynychu cyrsiau Cymraeg wythnosol wedi'u hanelu at godi eu gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er bod cynnydd gwych wedi bod yn y maes hwn, mae ystod y cyrsiau sy'n cael eu cyflenwi trwy'r Heddlu yn parhau yn gyfyngedig, ac yn unol â'r data sydd ar gael i ni, mae 352 o staff a swyddogion o fewn yr Heddlu sydd wedi datgan eu hunain heb unrhyw sgiliau Cymraeg.

**Cyrsiau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg**

Ar hyn o bryd mae'r pecynnau hyfforddi a ganlyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg:

- Pecyn Ymsefydlu ar-lein yr Heddlu;
- Hyfforddiant Rheoli Presenoldeb a Pherfformiad; a
- Hyfforddiant Recriwtio a Dethol

Dengys data diweddar na wnaeth unrhyw swyddog/aelod o staff fynychu unrhyw gwrs hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amlwg mae'r angen i ddeall y diffyg ymddangosiadol hwn yn y nifer sy'n ymgymryd â chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod staff a swyddogion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt a hefyd, bod cyfleoedd digonol ar gael i staff a swyddogion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymgynghori â'r Gweithlu**

Adnabu ymgynghoriad gyda'n gweithlu:

- Bod mwyafrif y staff a'r swyddogion yn awyddus i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd;
- Bod llawer o'n haelodau staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn deall yr angen i ddefnyddio'r Gymraeg; serch hynny, mae rhai aelodau staff yn gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg ac nad ydynt yn teimlo'r angen i ddysgu. Rheswm dros

deimlad o'r fath yw oherwydd bod rhai yn teimlo eu bod hi'n rhy anodd dysgu'r iaith, eraill yn teimlo nad oes ganddynt amser i ddysgu;
- Nad oes dealltwriaeth bob amser ymhlith staff a swyddogion y dylai gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei gynnig i'r cyhoedd hyd yn oed os yw'r ardal y maen nhw'n gweithio ynddi yn un cyfrwng Saesneg yn bennaf.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Adnabu ymgynghoriad â'r cyhoedd:

- Bod y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn amrywio ar draws ardal yr Heddlu;
- Roedd llawer y gwnaethom siarad â hwy yn falch o'r ffaith eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn eu gwasanaeth;
- Roedd rhai yn siomedig i beidio â chlywed swyddogion ar batrôl yn defnyddio'r iaith i gydnabod aelodau'r cyhoedd ac wrth gyfathrebu â'i gilydd;
- Cred rhai aelodau'r cyhoedd nad oeddynt yn gallu gofyn am wasanaeth Cymraeg gan Heddlu Dyfed-Powys.

**Galwadau Nad Ydynt yn Rhai Brys 101**

Wrth gysylltu â'n Canolfan Cyfathrebu'r Heddlu trwy 101, mae gan y galwyr yr opsiwn i dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg.

Mae'r Heddlu wedi profi cynnydd yn y galw am wasanaeth 101 trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng Medi 2016 a Medi 2017 – cynnydd o 9% o'i gymharu â chynnydd yn galw o 5% ar gyfer gwasanaeth 101 trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r galw ychwanegol hwn wedi'i fodloni gyda chynnydd yn nifer y trinwyr galwadau cyfrwng Cymraeg o fewn yr Heddlu, ac mae hefyd newidiadau mewn perthynas â'r system

ffôn a ddefnyddir gan yr Heddlu.

***Cyflymder Cyfartalog Ateb galwadau (Saesneg v Cymraeg)***

Adnabu'r data diweddaraf sydd ar gael i ni o fis Mawrth 2018 mai'r amser cyfartalog i ateb galwad Cymraeg oedd 23 eiliad, o'i gymharu â galwad Saesneg a oedd yn 12 eiliad. Golyga hyn ar gyfartaledd bod yn rhaid aros am 11 eiliad yn ychwanegol i alwad Cymraeg 101 gael ei ateb.

Mae cynnydd wedi bod o ran gostwng yr amser cyfartalog i ateb galwadau 101, ac wrth ostwng y bwlch rhwng yr amser cyfartalog i ateb galwadau 101 Cymraeg a Saesneg, serch hynny rhaid aros yn hwy o hyd i dderbyn ymateb i alwad 101 cyfrwng Cymraeg na galwad Saesneg 101.

***Cyfradd adael galwadau 101 (Saesneg v Cymraeg)***

Adnabu'r data diweddaraf sydd ar gael i ni o fis Mawrth 2018 mai'r gyfradd adael (y gyfradd lle nad yw galwadau 101 yn cael eu hateb oherwydd bod y galwr wedi diffodd yr alwad cyn derbyn ymateb) wedi gostwng ar gyfer galwadau 101 cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae gwahaniaeth yn parhau rhwng niferoedd y galwadau 101 cyfrwng Saesneg sy'n cael eu gadael o'u cymharu â galwadau 101 cyfrwng Cymraeg. Yn unol â'r data sydd ar gael i ni o fis Mawrth 2018 cafodd 11% o alwadau 101 cyfrwng Cymraeg eu gadael o'u cymharu â 3% o alwadau cyfrwng Saesneg.

**Cwynion**

Wrth adnabod sefyllfa'r Heddlu a'r OPCC o ran y Gymraeg, mae'n hanfodol ystyried unrhyw gwynion ffurfiol a dderbynnir gan yr Heddlu a'r OPCC mewn perthynas â'r Gymraeg.

Ystyriwyd cwynion ar gyfer 2016/2017 er mwyn rhoi trosolwg o'r materion

diweddaraf.

Yn ystod 2016 a 2017, derbyniwyd 3 cwyn ffurfiol gan yr Heddlu mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd dwy o'r cwynion hynny yn perthyn i'r amser a gymerwyd i ateb galwadau 101 trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y ddau achlysur, nid oedd yr achwynwyr yn hapus â'r amser yr oedd yn rhaid iddynt aros am ateb trwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd, sawl gwaith y gofynnwyd i'r galwyr adnabod eu dewis iaith. Mae hyn wedi'i adrodd yn ôl i Ganolfan Cyfathrebu'r Heddlu ac mae system ffôn newydd wedi'i gosod.

Roedd y drydedd gŵyn yn perthyn i gyhoeddi cosb benodedig trwy gyfrwng y Gymraeg, nid oedd y testun arni yn gwbl ddwyieithog. Cafodd yr adborth hwn ei adrodd yn ôl i'r adran berthnasol ac mae'r newidiadau perthnasol bellach wedi'u gwneud i sicrhau bod y ffurflen yn gwbl ddwyieithog.

**Rhaglen Cadlanciau Heddlu Dyfed-Powys**

Ar hyn o bryd, nid yw'r Heddlu yn gallu cynnig y rhaglen cadlanciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mae hyn yn effeithio er gwaeth ar nifer o ysgolion o fewn ein hardal nad ydym felly yn gallu cynnig y pecyn iddynt.

## 4. Ein Cynllun Gweithredu

Er mwyn bodloni nodau'r strategaeth 3 blynedd hon, mae camau Tymor Byr, Tymor Canolig a Thymor Hir wedi'u hadnabod fel a ganlyn.

| Camau Tymor Byr (6 mis) | Sut? |
|---|---|
| **1.** Cyfathrebu'r angen i staff a swyddogion ddiweddaru eu gallu Cymraeg ar y cofnod iaith mewnol i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'n gywir eu gallu Cymraeg; | Staff a swyddogion newydd yn cael eu hatgoffa yn ystod eu mewnbynnau ymsefydlu i ddiweddaru eu sgiliau iaith, ac fe'u hatgoffir o bwysigrwydd cael y data hwn. |

| | |
|---|---|
| **2.** Cynnal ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o wersi Cymraeg sydd ar gael i staff a swyddogion, ynghyd â phwysigrwydd gallu cyflenwi gwasanaeth i'n cymunedau trwy gyfrwng y Gymraeg; | Mae gwersi Cymraeg yn cael eu trefnu'n barhaus yn fewnol ac rydym yn hysbysebu'r cyrsiau hyn trwy negeseuon e-bost pob defnyddiwr ac ar safle mewnrwyd. |
| **3.** Sicrhau bod yr Heddlu a'r OPCC yn parhau i hyrwyddo a monitro cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg i sicrhau bod yr holl adrannau yn cydymffurfio; | Sicrhau bod yr Heddlu a'r OPCC yn hyrwyddo ac yn monitro cydymffurfiad a gwneir hynny trwy ymweliadau â'r orsaf e.e. Mawrth Mawr a negeseuon atgoffa i reolwyr llinell trwy gyfathrebu mewnol. |
| **4.** Cydlynu ymgyrch i'r cyhoedd ymhlith cymunedau i godi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan yr Heddlu ac OPCC, gan gynnwys defnyddio strategaeth gyfathrebu, ac ymgysylltu wyneb yn wyneb trwy gydol misoedd yr haf; | Anelwn at hysbysebu'r gwasanaethau hyn trwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cyfathrebu Corfforaethol. |
| **5.** Cynhyrchu canllawiau i staff a swyddogion i sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn ystyriaeth ofalus wrth hysbysebu pob swydd sy'n cael ei hysbysebu o fewn yr Heddlu a'r OPCC; | Bydd canllawiau yn cael eu cynhyrchu gan Swyddog y Gymraeg i staff gyfeirio atynt wrth hysbysebu ar gyfer swydd newydd. |
| **6.** Adolygu argaeledd cyrsiau Cymraeg (i ddysgu) sydd ar gael i staff a swyddogion ac adnabod mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu yn ôl yr angen; | Mae gwersi Cymraeg yn cael eu trefnu'n barhaus. Bydd cwrs FCC penodol yn cael ei drefnu er mwyn codi hyder a sicrhau bod cyfarwyddiadau/enwau lleoliadau yn cael eu hynganu yn gywir. |
| **7.** Adnabod rhesymau dros gyfradd ateb galwadau cyfartalog uwch a chyfradd adael ar gyfer galwadau 101 cyfrwng Cymraeg gyda'r bwriad o gyflawni'r un neu gyfartalu'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi i alwadau cyfrwng Saesneg a Chymraeg; | Bydd cwrs penodol Canolfan Cyfathrebu'r Heddlu yn cael ei drefnu er mwyn codi hyder a sicrhau bod cyfarwyddiadau/enwau lleoliadau yn cael eu hynganu yn gywir. Mae system newydd wedi'i chyflwyno i Ganolfan Cyfathrebu'r Heddlu a bydd yn cael ei monitro i sicrhau gwelliannau effeithiol. |

| Camau Tymor Canolig (1 blwyddyn) | Sut? |
|---|---|
| **8.** Ceisio cyrsiau ar gyfer y 352 aelod o staff a swyddog sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, a'u cefnogi i fynychu'r un peth er mwyn gostwng nifer y staff a swyddogion heb unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl; | Trefnu cwrs lefel 0 i lefel 1 i ostwng nifer y gweithwyr sy'n dweud bod ganddynt sgiliau Cymraeg lefel 0. |
| **9.** Datblygu ymgyrch recriwtio i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio am rolau yn yr Heddlu – ffocws penodol i gael ei roi i'r rheini sy'n ymgeisio i ddod yn Swyddogion Heddlu a PCSO's; | Anelwn at dargedu Clybiau Ffermwyr Ifanc/Eisteddfodau lleol/ysgolion cyfrwng Cymraeg/cydweithwyr o fewn ardal Dyfed-Powys. |
| **10.** Cyflwyno pecyn hyfforddi wedi'i anelu at staff a swyddogion sydd wedi datgan bod ganddynt alluoedd Cymraeg lefel 2 er mwyn cynyddu eu lefel i lefel 3; | Rydym yn anelu at adnabod cwrs ar-lein y gallwn ei hysbysebu ar gyfer staff a swyddogion sy'n dymuno codi eu sgil i allu lefel 3. |
| **11.** Cynyddu argaeledd cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan yr Heddlu er mwyn cyfoethogi'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg; | Byddwn yn gweithio gydag adran hyfforddi'r Heddlu i gynyddu nifer y cyrsiau a gynigiwn a byddwn yn hysbysebu'r cyrsiau hyn yn fewnol ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr eraill. |
| **12.** Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a swyddogion ynglŷn â'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg; | Byddwn yn hysbysebu'r cyrsiau hyn yn fewnol ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr eraill, gobeithio y bydd y nifer sy'n mynychu yn cynyddu. |
| **13.** Adolygu'r holl gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cyflenwi gan yr Heddlu a'r OPCC gyda'r bwriad o wreiddio gwybodaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a chydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg lle bynnag fo hynny'n bosibl; | Mae hwn yn ddarn o waith a fydd angen cydweithrediad adran hyfforddi'r Heddlu er mwyn adnabod cyrsiau cyfrwng Cymraeg posibl i'w cynnig i weithwyr. |

| | |
|---|---|
| **14.** Ymgymryd ag archwiliad blynyddol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cyflenwi gan yr Heddlu a'r OPCC i sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei gynnig; | Gellid cynnal hyn o bosibl gan gwmni allanol er mwyn cael darlun clir a realistig o le'r ydym ni o ran y gwasanaethau a gynigir. |

| **Camau Tymor Hir (3 blynedd)** | |
|---|---|
| **15.** Adolygu holl brosesau recriwtio a hyrwyddo mewnol o fewn yr Heddlu ac OPCC i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a'i bod ar gael i ymgeiswyr drwyddi draw'r broses; | Rydym hefyd yn y broses o greu proses recriwtio ar-lein newydd sbon gyda Heddluoedd eraill o Gymru, bydd hyn yn caniatáu proses cyfrwng Cymraeg llawn i'r ymgeiswyr. |
| **16.** Gwaith gyda Dyfnaint a Chernyw er mwyn datblygu cyflenwi'r Rhaglen Cadlanciau trwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau ei bod ar gael yn eang i ysgolion o fewn ardal yr Heddlu; | Gobeithiwn gydweithio gyda Dyfnaint a Chernyw er mwyn cyfieithu'r llyfr gwaith er mwyn cyflenwi hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ysgolion o fewn ardal Dyfed-Powys. |
| **17.** Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith staff a swyddogion trwy ffyrdd arloesol a chreadigol, gan gynnwys dathlu gwyliau a digwyddiadau diwylliannol Cymreig; | Byddwn yn parhau i ddathlu digwyddiadau Cymreig traddodiadol h.y. Eisteddfod / Dydd Gŵyl Dewi er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## 5. Monitro Cynnydd

Bydd y Strategaeth hon yn cael ei rheoli gan y Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg gyda chefnogaeth Arbenigwr y Gymraeg a Swyddog Cydymffurfiad OPCC.

Bydd cynnydd yn erbyn camau yn cael eu monitro yng Ngrŵp Gweithredu'r Gymraeg yn chwarterol. Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r grŵp yn rhoi manylion cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud, a lle y mae angen canolbwyntio ymdrechion yn ystod y cyfnod nesaf o dri mis.

## 6. Pwy sydd angen i mi gysylltu â hwy os ydw i angen gwybodaeth bellach

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â’r strategaeth hon a sut y gallwn ddatblygu’ch gwaith yn y maes hwn, mae croeso i chi gysylltu â’n tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a’r Gymraeg ar y manylion cyswllt isod.

**Ffôn:**

101

**Gwasanaeth testun nad ydynt yn achosion brys i bobl sy’n Fyddar, trwm eu clyw neu â nam ar e lleferydd:**
Mae gan Heddlu Dyfed-Powys wasanaeth testun ar gyfer **achosion nad ydynt yn achosion brys** i bobl sy’n Fyddar, trwm eu clyw neu â nam ar eu lleferydd. Nid oes yn rhaid i chi gofrestru i ddefnyddio’r gwasanaeth hwn ond byddai o gymorth i heddlu Dyfed-Powys pe bai chi’n rhoi’ch manylion cyswllt i ni.

Y rhif symudol yw: 07811 311 908

**E-bost:** equalityanddiversity@dyfed-powys.pnn.police.uk

**Gwefan:** www.dyfed-powys.police.uk

**Fersiwn Saesneg**
Mae’r ddogfen hon ar gael hefyd trwy gyfrwng y Saesneg trwy ymweld â’n gwefan, neu gysylltu â ni ar y manylion cyswllt uchod.